

Crynodeb o Benderfyniad Caniatâd Cais am Drwydded Forol CML1343 Parc Ynni Mostyn

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi penderfyniad caniatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) a wnaed o dan Reoliad 22 o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd) (MWR), mewn perthynas â chais am Drwydded Forol (cyf: CML1343) a gyflwynwyd gan Borthladd Mostyn Cyf. Cefnogwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi ystyried y cais a'r wybodaeth sy'n cefnogi'r cais, ac mae'n barod bellach i gyflwyno penderfyniad ar ganiatâd EIA i Borthladd Mostyn Cyf.

Roedd cynigion y datblygiad yn y cais gwreiddiol yn cynnwys:

- Adeiladu glanfa soled hyd at 200m o hyd a 25m o led i'r gogledd-orllewin o forglawdd Mostyn, ynghyd â sylfaen i hwyluso'r gwaith o adleoli'r bont godi bresennol.
- Estyniad i'r gwaith sydd eisoes wedi cael caniatâd (10/07/ML/2) er mwyn addasu'r angorfa Ro Ro bresennol o 200m o hyd i 270m o hyd, a chynyddu'r ardal sydd wedi'i mewnlenni o 1ha i 2.6ha o wely afon islanw.
- Atgyfnerthu ochr (orllewinol) y Morglawdd tua'r môr i'w hamddiffyn yn erbyn erydiad arfordirol, ac ailalinio darnau o arwyneb y Morglawdd drwy fewnlenni 0.6ha o hen fynedfa'r doc NAABSA ac ardaloedd afreolaidd o flaendraeth hyd at 0.2ha.
- Dyddodi tua 350,000m³ o dywod sydd wedi'i garthu fel deunydd llenwi ar gyfer y cei a'r lanfa newydd. Bwriedir cwblhau'r gwaith carthu o dan y Drwydded Forol bresennol (DML1542).

Nododd Arbenigwyr Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru ddwy elfen o'r prosiect a gyfrannodd at gollir Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Cytunodd yr Ymgeisydd i addasu ffin y cynllun yn unol ag awgrymiadau Arbenigwyr Technegol CNC fel na fyddai'n amharu ar yr ACA ac na fyddai unrhyw golledion o'r Ardal hon.

Cyflwynodd yr Ymgeisydd gais i amrywio'r cais am Drwydded Forol gan hepgor y lanfa o'r cynnig, ac yn sgil hynny, dileu'r gofyniad i garthu glanfa 8. Byddai hyn yn osgoi colli'r nodwedd ACA. (Cais ffurfiol i amrywio'r cais am Drwydded Forol a gwybodaeth ategol 5 Gorffennaf 2016).

Diwygiadau dilynol i'r cais am Drwydded Forol

Cynigiodd yr Ymgeisydd amrywiad i gais am Drwydded Forol Parc Ynni Mostyn er mwyn hepgor y lanfa soled arfaethedig i'r gogledd-orllewin o Forglawdd Mostyn a lleihau graddfa'r gwaith o atgyfnerthu ochr orllewinol y Morglawdd tua'r môr. Yn ogystal, cynigiodd yr Ymgeisydd leihau'r ardal i'w mewnlenni ar ochr y morglawdd tua'r tir 25m mewn hyd a 25m mewn lled i adeiladu'r cei a chadw'r bont godi.

Mae'r datblygiad yn cynnwys:

- Atgyfnerthu'r ardaloedd a nodir ar ochr morglawdd Mostyn tua'r môr drwy sgrafellu'r graig a'r rwbwl, fel bod gwaddodion meddal yn gallu setlo ac i wastadedd llaid allu ymestyn i'r ardaloedd hyn.
- Gosod amddiffynfeydd meini ar y morglawdd (mewn ffordd sy'n creu silffoedd ar gyfer adar sy'n clwydo), ac amddiffynfeydd cerrig i gryfhau'r morglawdd.
- Dyddodi hyd at 188,750 m³ o ddeunydd a garthwyd o dan drwydded DML1542 er mwyn adeiladu'r cei.
- Ailalinio wyneb y morglawdd a mewnlenni hen fynedfa'r doc NAABSA.

Ar sail cyngor gan Arbenigwyr Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru ar effaith amgylcheddol bosibl y gweithgaredd hwn, mae'r Tîm Trwyddedu Morol yn fodlon nad yw'r datblygiad arfaethedig yn newid casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol yn sylweddol a bod y penderfyniad yn gallu mynd rhagddo.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd i gefnogi'r Cais am Drwydded Forol yn cyfeirio at Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) sy'n cynnwys y penodau canlynol.

- Prosesau Ffisegol Arfordirol a Morydol
- Ecoleg Forol ac Arfordirol
- Adareg Forol ac Arfordirol
- Pysgod, Adnoddau Pysgodfeydd a Physgodfeydd
- Ansawdd Dŵr a Gwaddodion
- Perygl Llifogydd a Draenio
- Sŵn a Dirgryniad
- Ansawdd Aer
- Tirwedd ac Effeithiau Gweledol
- Mordwyaeth fasnachol a hamdden
- Trafnidiaeth Ffordd
- Treftadaeth Ddiwylliannol ac Archaeoleg
- Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol
- Rheoli a Monitro Amgylcheddol
- Rheoli Gwastraff

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn bodloni gofynion Rheoliad 12 (1)(d) ac Atodlen 3 i'r MWR.

Wrth ystyried y cais diwygiedig ar gyfer y Datblygiad Parc Ynni Morol ym Mhorthladd Mostyn, ystyriwyd y canlynol:

- Y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys y camau lliniaru arfaethedig;
- Darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;
- Y sylwadau a gafwyd.

Wrth ystyried y rhain, cynhaliwyd asesiad llawn a manwl ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl y cynigion ar bobl, anifeiliaid a phlanhigion, pridd, dŵr, y dirwedd, asedau materol a'r dreftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys unrhyw berygl i gyfanrwydd safleoedd cyfagos o bwysigrwydd cadwraethol.

Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi penderfynu bod effeithiau amgylcheddol y cais am Drwydded Forol ar gyfer y datblygiad ym Mhorthladd Mostyn wedi'u nodi, eu disgrifio a'u hasesu'n ddigonol a bod modd sicrhau camau lliniaru a fyddai'n ddigonol i ganiatáu cymeradwyo'r cais am Drwydded Forol.